# Cefnogi teuluoedd yn ystod yr argyfwng costau byw

Mae’r adnodd yma’n amlinellu sut y gallwch chi greu cynnig hael a chroesawgar i bob teulu, plentyn a pherson ifanc eleni wrth i’r cynnydd mewn costau byw barhau i effeithio’n negyddol ar gyllid teuluoedd.

Efallai mai diwrnod mewn amgueddfa yn rhad ac am ddim fydd un o’r unig ddiwrnodau allan sy’n bosibl i lawer o deuluoedd eleni, felly dylai amgueddfeydd ystyried sut y gallant wneud diwrnod i’r teulu mor gyfforddus ag y bo modd.

Yn gynharach eleni, tynnodd yr elusen plant Go Beyond sylw at effaith y gost gynyddol o fynd allan am y diwrnod a’r ffaith bod llawer o blant sy’n agored i niwed yn debygol o golli allan, fel yr adroddwyd amdano yn yr erthygl hon gan BBC News. Mae data diweddar gan Fonitor Cyfranogaeth Ddiwylliannol yr Audience Agency yn dangos nad plant sy’n agored i niwed yw’r unig rai sy’n colli allan. Dywedodd fwy na hanner y rhai a holwyd eu bod yn teimlo bod ganddynt lai o arian na’r llynedd ac mae bron i 60% yn mynd i nifer fach iawn o ddigwyddiadau diwylliannol a threftadaeth o ganlyniad i hynny.

Ym mis Gorffennaf 2023, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn hyder y defnyddiwr ers blwyddyn, gan olygu bod teuluoedd yn mynd i barhau i chwilio am ddiwrnodau allan am ddim neu ddiwrnodau y mae angen iddynt dalu amdanynt sy’n edrych fel petaent yn cynnig gwerth da am arian.

Mae ymchwil gan UK Youth yng ngwanwyn 2023 yn dangos effaith yr argyfwng costau byw ar bobl ifanc gyda bron i draean yn dweud eu bod yn fwy unig am eu bod yn gorfod gwneud llai o gymdeithasu y tu allan i’r cartref oherwydd pryderon am arian. Mae’r adroddiad gan Barnardo’s, A crisis on our doorstep, yn dangos bod mwy na 50% o rieni’n poeni bod eu plant yn colli allan ar blentyndod arferol oherwydd yr amodau economaidd ar hyn o bryd.

Ar sail y chwe phwynt yn ein Maniffesto Kids in Museums, mae’r canllaw hwn yn nodi sut y gallwch wella eich cynnig i gefnogi eich cymuned a sut i gyfathrebu hyn i’r teuluoedd sydd angen y cymorth hwn fwyaf.

## 1. Estynnwch groeso

Gwahoddwch deuluoedd i mewn drwy’r flwyddyn gron. Efallai mai’r amgueddfa yw un o’r unig fannau cyhoeddus rhad ac am ddim y gallent fynd iddynt. Gall ymweliad ag amgueddfa fod yn ddiwrnod allan am ddim, neu am gost isel, yn ystod gwyliau’r ysgol, lle i gadw allan o’r gwres os bydd y tymheredd yn codi neu i gadw’n gynnes pan mae’n disgyn. Gwnewch yn siŵr bod y staff i gyd yn gwybod y gallai pobl ddewis ymweld er mwyn cadw’n gynnes, ac y dylent alluogi iddyn nhw dreulio amser yn gyfforddus yn eich lle chi.

Y gaeaf diwethaf, creodd rhai cynghorau, fel Cyngor Gateshead, rwydweithiau o 'fannau cynnes' yn eu hardal leol. Gofynnwch a yw eich cyngor lleol chi'n gwneud rhywbeth tebyg a sut y gallwch restru eich safle chi, os yw hynny'n bosibl (mae'r erthygl hon yn y Guardian yn amlinellu rhai o'r heriau i amgueddfeydd). Mae CILIP wedi cynhyrchu canllaw am sefydlu mannau cynnes yn eich cymuned.

Mae Awdurdod Llundain fwyaf wedi creu rhwydwaith o fannau i gadw allan o'r gwres, sy'n cynnwys nifer o amgueddfeydd fel Amgueddfa Brunel. Edrychwch i weld a oes gan eich cyngor lleol chi fenter debyg.

Hyfforddwch y staff i allu cyfeirio pobl at sefydliadau lleol eraill i bobl sydd angen cymorth. Mae gan y mwyafrif o gynghorau lleol gyfeirlyfrau o wasanaethau i deuluoedd a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Mae gan The Mix UK gyfeirlyfr o wasanaethau lleol i bobl ifanc y gallwch ei chwilio am ddim ac mae gan Homeless Link gronfa ddata o wasanaethau tai a digartrefedd yn Lloegr.

## 2. Byddwch yn hygyrch i bawb

Mae magu plentyn gydag anabledd yn ddrytach yn barod na magu plentyn heb unrhyw anabledd neu salwch tymor hir. Yn ôl Scope yn eu hastudiaeth Disability Price Tag 2023, mae chwyddiant yn golygu bod angen i gartref sydd ag oedolyn neu blentyn anabl gael mwy na £1,000 yn ychwanegol yn awr er mwyn cael yr un safon o fyw â chartref sydd heb rywun anabl.

Meddyliwch beth allech chi ei gynnig i deuluoedd gyda phlentyn sydd ag anabledd. Os nad yw'r gweithgaredd yn rhad ac am ddim yn barod, allech chi ei wneud yn ddi-gost neu ostwng y gost? Mae'r Amgueddfa Gwasanaethau Argyfwng Cenedlaethol yn Sheffield wedi gwneud ei Sesiynau Chwarae Synhwyraidd yn rhad ac am ddim (er bod yn rhaid i chi brynu tocyn i fynd i mewn i'r amgueddfa o hyd) ac mae'n hygyrch i bob oedran, nid i blant o dan 5 oed yn unig.

Mae llawer o deuluoedd AAAA wedi elwa o'r pwyslais ar weithgareddau digidol a ddarparwyd gan amgueddfeydd yn ystod y cyfnod clo. Felly mae rhai amgueddfeydd, fel Barnsley Museums, wedi parhau i rannu crefftau, straeon a ryseitiau am ddim i helpu ymwelwyr i brofi'r amgueddfa o'u cartrefi.

## 3. Gwnewch y profiad yn hawdd a chyfforddus

Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigonedd o seddau sy'n gyfforddus i deuluoedd gael seibiant. Os gallwch, cynigiwch WiFi am ddim.

Mae amgueddfeydd fel Museum of the Order of St John a Maidstone Museum (gwelwch bostiad Instagram yr amgueddfa) yn cynnig lle am ddim ar ôl ysgol i blant a phobl ifanc

wneud eu gwaith cartref . Mae hyn yn arbennig o werthfawr i'r bobl sy'n byw mewn llety dros dro neu lety gorlawn.

Os oes gennych ddillad sbâr yn eich casgliad o eiddo coll, gwnewch yn siŵr eu bod ar gael os bydd plentyn yn dioddef o salwch teithio ar y ffordd i'r amgueddfa neu'n cael damwain yn ystod ymweliad.

Cynigiwch gewynnau sbâr, weips a chynhyrchion mislif mewn 'bocs byr rybudd'. Mae'r London Museum of Water and Steam yn hyrwyddo bocs o bethau sbâr ar eu gwefan.

Os oes gennych gaffi, a allech chi gynnig bwyd poeth i blant dros y gaeaf? Mae The Barbican Kitchen yn cynnig prydau am ddim i blant dan 12 oed.

Allech chi neilltuo ystafell fel bod gan deuluoedd rywle i fwyta eu bwyd eu hunain os na allan nhw fforddio bwyta mewn caffi? Darllenwch ein hadnodd Caffis Amgueddfeydd ynglŷn â beth mae teuluoedd ei eisiau mewn lle picnic. Cynigiwch ddŵr tap am ddim, yn enwedig yn ystod tywydd poeth.

Os nad oes caffi gennych, cyfeiriwch deuluoedd at fannau bwyta yn yr ardal leol lle mae'r prisiau'n isel. Mae gan The Big Issue restr o leoedd lle gall plant fwyta am gost isel iawn neu am ddim dros wyliau'r haf ysgol yn 2023.

Gallech chi hefyd ystyried cynnal digwyddiadau gyda thema yn ymwneud â bwyd a choginio, fel y cyrsiau garddio a choginio i deuluoedd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

## 4. Cofiwch fod teuluoedd o bob math a maint i'w cael

Os byddwch chi'n codi ffi am fynediad, a allech chi newid eich dull o ddarparu tocynnau? Mae amgueddfeydd ac orielau wedi cael eu hannog i gofrestru am ad-daliad TAW i gefnogi mynediad am ddim i'r cyhoedd. Allech chi ystyried rhoi mynediad am ddim i unrhyw un sy'n prynu tocyn teulu neu ddull mynediad blynyddol tebyg? Darllenwch ein harweiniad am ganllawiau tocyn teulu hyblyg i gael syniadau am greu tocynnau hyblyg sy'n gweithio i grwpiau gwahanol.

Yn ystod gwyliau'r haf, efallai y byddwch eisiau ystyried cynnig disgowntiau ychwanegol i deuluoedd neu docynnau plant am ddim. Mae'r Avoncroft Museum of Buildings yn cynnig dau docyn am ddim i blant gyda phob tocyn oedolyn a brynnir yn haf 2023. Mae Bow Street Police Museum yn cynnig mynediad am hanner pris i bobl yn ei bwrdeistrefi lleol ac mae gan Dorset Museum ddisgownt ar gyfer yr holl docynnau teulu sy'n cael eu harchebu ar-lein.

Mae'r London Transport Museum yn cynnig tocynnau mynediad am £1 i bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn. Mae'r erthygl hon yn y Londonist yn rhannu enwau amgueddfeydd eraill yn Llundain sy'n cynnig disgownt neu fynediad am ddim i bobl sy'n ddi-

waith neu sydd ar Gredyd Cynhwysol. Mae gan The Story Museum yn Rhydychen ‘Ddydd Sul talwch faint gallwch chi’ unwaith y mis.

Gallech sefydlu cynllun ‘Talu Ymlaen’ i dalu am ddiwrnodau allan i deuluoedd sy’n methu fforddio prisiau’r tocynnau. Mae gan The Design Museum y Cynllun Ticket Mate, sy’n galluogi i ymwelwyr roi tocyn yn rhodd i elusen leol.

Mae rhai amgueddfeydd wedi rhoi tocynnau neu dalebau ar gyfer gweithgareddau i gronfeydd bwyd lleol, fel y Shire Hall Museum yn Dorset. Os gwnewch chi hynny, ystyriwch gynnig diwrnod llawn o weithgareddau fel nad yw teuluoedd yn gwario arian mawr ar deithio dim ond am ymweliad byr.

**5. Cyfathrebwch yn dda**

Amlinellwch eich cynnig i deuluoedd, plant a phobl ifanc yn glir ar eich gwefan. Defnyddiwch ein templed o dudalen we i deuluoedd i greu tudalen benodol i deuluoedd lle gallant ganfod yr holl wybodaeth maen nhw ei hangen. Mae gan yr amgueddfa London Museum of Water and Steam ganllaw am y pump peth gorau i bob grŵp oedran ar ei wefan, ac mae hwn yn enghraifft wych. Mae Barnsley Museums wedi creu tudalen am weithgareddau gwyliau haf sy’n ‘Ysgafn ar y Boced’.

Rhestrwch beth sydd ar gael gan yr amgueddfa i deuluoedd, er enghraifft:

- lle cynnes neu le i ddianc rhag y gwres
- gweithgareddau am ddim
- lle dan do i fwyta cinio
- ail lenwi poteli dŵr am ddim o dap
- croesawu bwydo ar y fron
- bocsys ‘byr rybudd’.

Cyfeiriwch yn rheolaidd at y cynnig hwn ar eich sianelau cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth.

Mae ymchwil gan ALVA yn dangos bod ymweliadau ag atyniadau rhad ac am ddim yn parhau i gynyddu. Os ydych yn cynnig mynediad am ddim, rhowch wybod i bawb! Ystyriwch gynhyrchu taflenni syml a’u rhoi i gronfeydd bwyd lleol a sefydliadau cymunedol eraill er mwyn iddyn nhw allu eu dosbarthu i deuluoedd na fyddech efallai’n eu cyrraedd fel arall. Gwnewch yn siŵr bod y taflenni gwybodaeth yn dangos yn glir bod croeso i deuluoedd a bod digonedd i’w wneud am ddim.

Yn ogystal, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu eich cynnig am ddim gyda’ch cyngor lleol neu swyddfa wybodaeth i dwristiaid lleol oherwydd maen nhw’n aml yn gallu creu rhestrau o weithgareddau lleol am ddim dros wyliau’r haf

Mae ymchwil gan ALVA wedi dangos fod pobl yn teimlo bod atyniadau sy'n codi ffi yn mynd yn ddrytach. Felly, os ydych yn atyniad sydd â ffi mynediad, ystyriwch ffyrdd o gyfathrebu sut mae eich safle chi'n rhoi gwerth am arian. Mae'n dal i fod yn bwysig anfon negeseuon am ostyngiadau yn y pris mynediad, tocynnau blynyddol neu ddisgowntiau eraill er mwyn annog teuluoedd i ymweld.

**6. Byddwch yn rhan weithredol o'ch cymuned**

Crëwch bartneriaethau gyda sefydliadau cymunedol lleol, hyd yn oed os nad ydych wedi gweithio gyda nhw o'r blaen. Mae'r Museum of Homelessness yn ystyried bod ganddi rôl i ddarparu camau gweithredu uniongyrchol, ymarferol i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref. Mae'r Florence Nightingale Museum yn Llundain yn gweithio gyda sefydliad nyrsio i gynnig cymorth wedi ei dargedu i bobl mewn caledi. Mae disgrifiad o hyn yn yr erthygl hon gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd (wal dalu). Cynhaliodd Colchester and Ipswich Museums gyfres o ddigwyddiadau am wythnos yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Byd Gwaith Ipswich i gwsmeriaid a'u teuluoedd.

Mae rhai sefydliadau, fel yr Association for Suffolk Museums, wedi cynnig gweithgareddau yn rhan o Raglen Holiday Activities and Food (HAF) eu cyngor. 2024/25 yw blwyddyn derfynol y cyllido HAF cyfredol felly efallai y bydd cyfleoedd i'ch amgueddfa gymryd rhan yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf (Lloegr yn unig).

Darparwch le i wasanaethau neu grwpiau cymunedol, ond gwnewch yn siŵr nad ydych yn dyblygu darpariaeth sy'n bodoli'n barod. Er enghraifft, mae'r London Museum of Water and Steam yn cynnal sesiynau cynghori cymunedol yn eu caffi bob bore Iau.

Cefnogwch gronfa fwyd neu gronfa harddwch drwy weithredu fel canolfan alw heibio neu sefydlu fan casglu. Mae Museum of the Home yn cynnal Cronfa Fwyd Hackney bob dydd Llun pan mae ar gau i'r cyhoedd. Cydweithiodd amgueddfa Rochdale Pioneers Museum â phartneriaid lleol i ddatblygu cynllun rhannu bwyd cymunedol o'r enw Pioneer Pantry.

Os byddwch yn creu dangosiad neu arddangosfa newydd, a allech chi gynnwys bocs rhoddion i elusennau lleol?

Allech chi gynnig diwrnodau allan gyda chefnogaeth yn rhad ac am ddim i sefydliadau lleol, fel mudiadau digartrefedd neu lochesau? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnig lluniaeth syml ar ddiwedd yr ymweliad.

Allech chi gydweithio â safleoedd diwylliannol lleol eraill i wella'r mynediad i'ch safleoedd? Er enghraifft, roedd y Science and Industry Museum a The Lowry yn ddau bartner yn yr ŵyl 'We Invented the Weekend' yn Salford, sef gŵyl am ddim a gynhaliwyd mewn ymateb i'r argyfwng costau byw a'i effaith ar wariant ar ddiwylliant.

Yn debyg i'r hyn a wnaeth amgueddfeydd yn ystod y pandemig, a allech chi gasglu profiadau teuluoedd, plant a phobl ifanc mewn ffordd sensitif yn eich ardal leol? Gwelwch yr arddangosfa Story of Place, a gafodd ei harddangos yn Amgueddfa a Chaer Rufeinig Segedunum, i gael esiampl ragorol.

**Beth arall allwn ni ei wneud?**

Yn eich rôl broffesiynol mewn amgueddfa, gallwch:

- gyfrannu eich syniadau i'r gyd-ddogfen Google hon a ddechreuwyd gan Eleanor Root o Colchester Museums, neu i'r adnodd hwn drwy anfon e-bost i: getintouch@kidsinmuseums.org.uk
- darllenwch ganlyniadau arolwg y sector i'r argyfwng costau byw gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM)
- gwelwch yr awgrymiadau hyn ar sut i gefnogi lles staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa gan y Museums Association.